# Prifnewyddion

Cylchlythyr y Dreth Gyngor 2024

# Treth Gyngor 2024/25

## Manylion y Gwariant Cyfalaf a Refeniw ar Wasanaethau

Mae Cyllideb y Cyngor yn cynnwys dau brif faes - Refeniw (gwariant o ddydd i ddydd) a Chyfalaf (buddsoddiad mewn isadeiledd).

Mae gosod y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2024/25 wedi bod yn heriol dros ben. Amcangyfrifir y bydd yn costio dros £57 miliwn yn fwy i'r Cyngor ddarparu gwasanaethau yn 2024/25.

Mae cynnydd o 4.3 % yng nghyllid y Cyngor gan Lywodraeth Cymru, yn cwmpasu llai na hanner y cynnydd hwn mewn costau, gan adael bwlch o £30.3 miliwn sydd yn rhaid mynd i'r afael ag ef. Fel yn y blynyddoedd blaenorol, wrth osod y gyllideb, mae'r rhan fwyaf o'r bwlch yn y gyllideb wedi'i gau drwy arbedion (£19.9m). Mae'r gweddill wedi ei gau drwy gynnydd o 6.0 % yn y Dreth Gyngor sy'n cynhyrchu incwm ychwanegol net o £10.4m. Bydd y cynnydd yn galluogi diogelu rhai o wasanaethau allweddol y Cyngor. Bydd y rhai sy'n gymwys yn derbyn cymorth drwy'r Cynllun Gostyngiad y Dreth Gyngor.

Mae'r Cyngor wedi parhau i flaenoriaethu arbedion effeithlonrwydd - mewn geiriau eraill arbedion sy'n darparu'r un peth (neu fwy) am lai o adnoddau heb unrhyw effaith ar y preswylydd / cwsmer. Mae arbedion effeithlonrwydd cyfarwyddiaeth gwerth £10.5 miliwn yn rhan o Gyllideb 2024/25, ac mae'r rhain yn eistedd cyd-fynd ag arbedion a mesurau corfforaethol pellach, gwerth £5.3 miliwn. Fodd bynnag, mae maint y bwlch yn y gyllideb yn golygu y bu'n rhaid gwneud gwerth £4.1 miliwn o arbedion sy'n cael effaith ar wasanaethau (cynigion newid i wasanaethau).

Mae'r cynigion newid i wasanaethau sydd wedi'u cynnwys yn y gyllideb yn gyson â chanfyddiadau ymgynghoriad cyllideb chwe wythnos y Cyngor a arweiniodd at bron i 9,000 o ymatebion. Maen nhw'n cynnwys cynnydd i'r pris a godir am wasanaethau â thâl, fel ffioedd meysydd chwarae, parcio a gwasanaethau profedigaeth. Mae newidiadau i oriau gweithredu rhai gwasanaethau gan gynnwys Amgueddfa Caerdydd, y gwasanaeth mynwentydd, a Hybiau. Bu hefyd angen lleihau cyllidebau sy'n cefnogi digwyddiadau, parciau a Thimau Gweithredu Lleol.

O fewn yr amlen ariannu sydd ar gael, mae'r Gyllideb yn parhau i ddarparu cefnogaeth ar gyfer blaenoriaethau cryfach, tecach, gwyrddach y ddinas ac yn ystyried adborth ymgynghori, a nododd dair blaenoriaeth ariannu fwyaf y dinesydd fel 1) Ysgolion, 2) Plant a Theuluoedd sy'n Agored i Niwed a 3) Oedolion a Phobl Hŷn sy'n Agored i Niwed. Mae buddsoddiad yn y meysydd hyn yn amlwg yn y Gyllideb Refeniw a'r Rhaglen Gyfalaf.

Mae Cyllideb Refeniw 2023/24 y Cyngor yn cynnwys £12.8 miliwn (+4.3 %) o gyllid ychwanegol ar gyfer Ysgolion. Mae'r lefel hon o gynnydd yn gyson â chynnydd yn grant cyffredinol Llywodraeth Cymru i'r Cyngor. Mae'n cynnwys arian ychwanegol net gwerth £26.3 miliwn (+11.1 %) i'r Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn cefnogi plant ac oedolion sy'n agored i niwed, a chyllideb net ychwanegol o £4.1 miliwn (8.6 %) i'r Gwasanaethau Addysg Canolog. Mae Gwasanaethau Ailgylchu a Chymdogaethau, y nodwyd mai dinasyddion oedd eu blaenoriaeth uchaf ar ôl ysgolion a gofal cymdeithasol, yn un o'r ychydig iawn o wasanaethau na fydd yn gweld gostyngiad net yn y gyllideb yn 2024/25.

Mae Rhaglen Gyfalaf y Cyngor ar gyfer 2024/25 – 2028/29 yn ailddatgan ei ymrwymiad i fuddsoddiad sylweddol yn nyfodol y ddinas. Mae hyn yn cynnwys buddsoddiad mewn tai fforddiadwy (£716 miliwn) ac mewn adeiladau ysgol newydd a phresennol (£275 miliwn). Mae'r rhaglen yn buddsoddi mewn seilwaith trafnidiaeth gwell, teithio llesol, gwella ansawdd aer, mynd i'r afael ag erydu arfordirol a mentrau datblygu economaidd fel yr Arena newydd sy'n cael ei ariannu'n bennaf trwy gyfraniadau gan ddatblygwyr.

Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn tynnu sylw at y ffaith y bydd y Cyngor, dros y pedair blynedd ar ôl 2024/25, yn wynebu bwlch cyllidebol pellach o £142 miliwn, oherwydd pwysau ariannol sy'n fwy na'r cyllid a ragwelir, a bydd angen mynd i'r afael â swm o £44 miliwn yn 2025/26. Wrth weithio i gau'r bwlch hwn, bydd y Cyngor yn parhau i geisio gwella'r modd y mae'n darparu gwasanaethau a, thrwy ymgysylltu'n barhaus â dinasyddion, cymunedau a rhanddeiliaid eraill, bydd yn ystyried ei flaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau'r dyfodol yn ofalus.



**AA** (Ardrethi Annomestig)

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod y gyfradd ar **56.2p** yn y **£**

CRYFACH TECACH GWYRDDACH

CARDIFF CAERDYDD

## Sut y Cyfrifir eich Bil

| | | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Y cyfanswm y byddwch yn ei dalu= | 1. Cyngor Caerdydd | 980.48 | 1,143.89 | 1,307.31 | 1,470.72 | 1,797.55 | 2,124.37 | 2,451.20 | 2,941.44 | 3,431.68 |
| +1. Treth Gyngor Caerdydd | 2. Comisiynydd Heddlu a Trosedd ar gyfer De Cymru | 235.11 | 274.30 | 313.48 | 352.67 | 431.04 | 509.41 | 587.78 | 705.34 | 822.90 |
| | 3. Cynghorau Cymuned | | | | | | | | | |
| +2. Comisiynydd Heddlu a Trosedd ar gyfer De Cymru | Llys-faen | 15.75 | 18.38 | 21.00 | 23.63 | 28.88 | 34.13 | 39.38 | 47.26 | 55.14 |
| | Pentyrch | 35.07 | 40.91 | 46.76 | 52.60 | 64.29 | 75.98 | 87.67 | 105.20 | 122.73 |
| | Radur a Phentre-poeth | 26.94 | 31.43 | 35.92 | 40.41 | 49.39 | 58.37 | 67.35 | 80.82 | 94.29 |
| | Sain Ffagan | 17.18 | 20.04 | 22.91 | 25.77 | 31.50 | 37.22 | 42.95 | 51.54 | 60.13 |
| +3. Treth y Cyngor Cymuned | Pentref Llaneirwg | 14.67 | 17.11 | 19.56 | 22.00 | 26.89 | 31.78 | 36.67 | 44.00 | 51.33 |
| | Tongwynlais | 23.21 | 27.08 | 30.95 | 34.82 | 42.56 | 50.30 | 58.03 | 69.64 | 81.25 |

## Beth Fyddwch chi'n ei Dalu



| | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Llys-faen | 1,231.34 | 1,436.57 | 1,641.79 | 1,847.02 | 2,257.47 | 2,667.91 | 3,078.36 | 3,694.04 | 4,309.72 |
| Pentyrch | 1,250.66 | 1,459.10 | 1,667.55 | 1,875.99 | 2,292.88 | 2,709.76 | 3,126.65 | 3,751.98 | 4,377.31 |
| Radur a Phentre-poeth | 1,242.53 | 1,449.62 | 1,656.71 | 1,863.80 | 2,277.98 | 2,692.15 | 3,106.33 | 3,727.60 | 4,348.87 |
| Sain Ffagan | 1,232.77 | 1,438.23 | 1,643.70 | 1,849.16 | 2,260.09 | 2,671.00 | 3,081.93 | 3,698.32 | 4,314.71 |
| Pentref Llaneirwg | 1,230.26 | 1,435.30 | 1,640.35 | 1,845.39 | 2,255.48 | 2,665.56 | 3,075.65 | 3,690.78 | 4,305.91 |
| Tongwynlais | 1,238.80 | 1,445.27 | 1,651.74 | 1,858.21 | 2,271.15 | 2,684.08 | 3,097.01 | 3,716.42 | 4,335.83 |
| Ardaloedd Eraill | 1,215.59 | 1,418.19 | 1,620.79 | 1,823.39 | 2,228.59 | 2,633.78 | 3,038.98 | 3,646.78 | 4,254.58 |

GALL CARTREFI AG UN OEDOLYN YN UNIG HAWLIO GOSTYNGIAD O 25 %

## Bandiau'r Dreth Gyngor

Mae'r Dreth Gyngor yn seiliedig ar werth marchnad agored anheddau domestig ar 1 Ebrill 2003. Yr Asiantaeth Brisio sy'n penderfynu ar werth annedd. Yn seiliedig ar brisiant yr Asiantaeth ar annedd penodol, fe'i gosodir yn un o'r naw band prisio A-I sy'n penderfynu ar y dreth gyngor sy'n daladwy mewn perthynas â'r eiddo.

| Band Prisio | Ystod gwerthoedd ar 1 Ebrill 2003 | Y Dreth Gyngor sy'n daladwy fel canran cost Band D |
|---|---|---|
| A | Heb fod yn fwy na £44,000 | 6/9 |
| B | £44,001 - £65,000 | 7/9 |
| C | £65,001 - £91,000 | 8/9 |
| D | £91,001 - £123,000 | 9/9 |
| E | £123,001 - £162,000 | 11/9 |
| F | £162,001 - £223,000 | 13/9 |
| G | £223,001 - £324,000 | 15/9 |
| H | £324,001 - £424,000 | 18/9 |
| I | Gwerthoedd sy'n fwy na £424,000 | 21/9 |

I gael rhagor o wybodaeth am eich band, neu i apelio yn ei erbyn, ewch i Asiantaeth y Swyddfa Brisio ar **www.gov.uk/contact-voa neu ffoniwch 03000 505505**

## Archebiannau'r Cyngor Cymuned

| 2023/24 £ | | 2024/25 £ |
|---|---|---|
| 67,000 | Llys-faen | 72,500 |
| 189,623 | Pentyrch | 195,093 |
| 158,921 | Radur a Phentre-poeth | 165,278 |
| 47,000 | Sain Ffagan | 51,700 |
| 54,665 | Pentref Llaneirwg | 55,264 |
| 24,500 | Tongwynlais | 28,900 |

## Asesiad Gwariant Safonol

| | £m |
|---|---|
| Asesiad Safonol y Cynulliad ar gyfer gwariant y Cyngor yw: | 861.2 |
| Yr Union Gyllid a gymeradwyir gan y Cyngor yw: | 849.3 |

**Os ydych chi'n credu y gallech fod yn gymwys i hawlio gostyngiad y dreth gyngor ewch i www.caerdydd.gov.uk/trethgyngor am ragor o wybodaeth.**

## Newidiadau mewn Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn

| | Brasamcan o'r Balans 31.3.2024 £000 | Symudiadau Arfaethedig yn 2024/25 £000 | Brasamcan o'r Balans 31.3.2025 £000 |
|---|---|---|---|
| Cronfa Refeniw Cyffredinol | 14,255 | 0 | 14,255 |
| Cronfeydd wedi'u Clustnodi | 109,852 | (27,173) | 82,679 |
| Cronfa Gyffredinol HRA | 15,502 | 0 | 15,502 |
| Cronfeydd HRA | 5,300 | 321 | 5,621 |
| | **144,909** | **(26,852)** | **118,057** |

## Gwariant a Chyllid Cyfalaf 2024/25

| Gwariant: | £000 |
|---|---|
| Cronfa Gyffredinol | 321,422 |
| Tai Cyhoeddus | 136,280 |
| **CYFANSWM Y GWARIANT** | **457,702** |
| **Ariannwyd gan:** | **£000** |
| Benthyca | 244,356 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 6,110 |
| Grantiau a Chyfraniadau a Lwfans Gwaith Atgyweirio Mawr | 200,801 |
| Adnoddau Eraill y Cyngors | 6,435 |
| **CYFANSWM Y CYLLID** | **457,702** |

## Gwariant Refeniw 2023/24

| Dadansoddiad fesul Cyfarwyddiaeth | Gwariant Gros £000 | Incwm £000 | Gwariant Gros £000 |
|---|---|---|---|
| Rheolaeth Gorfforaethol | 6,818 | (101) | 6,717 |
| Datblygu Economaidd | 49,464 | (38,773) | 10,691 |
| Gwasanaethau Ailgylchu a Chymdogaeth | 50,127 | (10,982) | 39,145 |
| Addysg | 400,730 | (58,909) | 341,821 |
| Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd | 62,272 | (52,950) | 9,322 |
| Tai a Chymunedau | 281,539 | (233,360) | 48,179 |
| Perfformiad a Phartneriaethau | 9,051 | (6,242) | 2,809 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol - Oedolion | 178,945 | (31,487) | 147,458 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol - Plant | 100,884 | (13,192) | 87,692 |
| Awdurdod Harbwr Caerdydd | 7,141 | (7,141) | 0 |
| Cyfrif Refeniw Tai | 100,649 | (100,649) | 0 |
| Gwasanaethau Llywodraethiant a Chyfreithiol | 8,539 | (1,231) | 7,308 |
| Adnoddau | 32,520 | (15,576) | 16,944 |
| Cyllido Cyfalaf | 37,727 | (844) | 36,883 |
| Cyfrif Refeniw Cryno | 26,845 | (928) | 25,917 |
| **Cyfanswm Gwariant y Gyfarwyddiaeth** | **1,353,251** | **(572,365)** | **780,886** |
| Ardollau | 22,608 | 0 | 22,608 |
| Gostyngiad Treth yn ôl Disgresiwn | 400 | 0 | 400 |
| Cyfraniadau o Gronfeydd wrth gefn | 0 | (1,500) | (1,500) |
| **Cyfanswm Gwariant y Cyngor** | **1,376,259** | **(573,865)** | **802,394** |
| Grant Cynnal Refeniw | | | (475,312) |
| Ardrethi Annomestig | | | (118,293) |
| **Y Dreth Gyngor** | | | **208,789** |
| **Mae'r cyfanswm gwariant yn cynnwys rdollau sy'n daladwy i:** | **£000** | | |
| Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru | 21,199 | | |
| Awdurdod Iechyd Porth Caerdydd | 152 | | |
| Awdurdod Iechyd Porth Casnewydd | 5 | | |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | 160 | | |
| Crwner | 1,092 | | |
| | **22,608** | | |

## Gwariant Refeniw 2024/25

| Dadansoddiad fesul Cyfarwyddiaeth | Gwariant Gros £000 | Incwm £000 | Gwariant Gros £000 |
|---|---|---|---|
| Rheolaeth Gorfforaethol | 9,148 | (771) | 8,377 |
| Datblygu Economaidd | 40,301 | (31,453) | 8,848 |
| Gwasanaethau Ailgylchu a Chymdogaeth | 51,672 | (11,186) | 40,486 |
| Addysg | 460,133 | (100,912) | 359,221 |
| Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd | 61,516 | (54,136) | 7,380 |
| Tai a Chymunedau | 240,719 | (193,401) | 47,318 |
| Perfformiad a Phartneriaethau | 9,307 | (6,542) | 2,765 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol - Oedolion | 204,809 | (41,275) | 163,534 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol - Plant | 116,078 | (17,987) | 98,091 |
| Awdurdod Harbwr Caerdydd | 7,261 | (7,261) | 0 |
| Cyfrif Refeniw Tai | 112,277 | (112,277) | 0 |
| Gwasanaethau Llywodraethiant a Chyfreithiol | 9,187 | (1,293) | 7,894 |
| Adnoddau | 33,387 | (15,816) | 17,571 |
| Cyllido Cyfalaf | 41,431 | (1,647) | 39,784 |
| Cyfrif Refeniw Cryno | 24,051 | (1,078) | 22,973 |
| **Cyfanswm Gwariant y Gyfarwyddiaeth** | **1,421,277** | **(597,035)** | **824,242** |
| Ardollau | 24,642 | 0 | 24,642 |
| Gostyngiad Treth yn ôl Disgresiwn | 400 | 0 | 400 |
| Cyfraniadau o Gronfeydd wrth gefn | 0 | (3,500) | (3,500) |
| **Cyfanswm Gwariant y Cyngor** | **1,446,319** | **(600,535)** | **845,784** |
| Grant Cynnal Refeniw | | | (488,634) |
| Ardrethi Annomestig | | | (134,524) |
| **Y Dreth Gyngor** | | | **222,626** |
| **Mae'r cyfanswm gwariant yn cynnwys rdollau sy'n daladwy i:** | **£000** | | |
| Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru | 23,141 | | |
| Awdurdod Iechyd Porth Caerdydd | 155 | | |
| Awdurdod Iechyd Porth Casnewydd | 5 | | |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | 167 | | |
| Crwner | 1,174 | | |
| | **24,642** | | |